**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Yr Athro Jean White
Prif Swyddog Nyrsio
Cyfarwyddwr Nyrsio GIG Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

8 Mehefin 2017

Annwyl yr Athro Jean White

**Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai**

Diolch am ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai a drafodwyd gan yr Aelodau ar 5 Mehefin.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o'r argymhellion yn yr adroddiad ac yn awyddus i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn eu gweithredu ym mis Tachwedd 2017.

Yn y cyfamser, hoffwn gael eglurhad ar y canlynol:

**Argymhelliad 1**: Nid yw'n glir a yw'r eitem agenda sefydlog, am adborth gan gleifion ar brydau yn berthnasol i'r Grŵp Gwerthuso a Monitro Strategol Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan neu i'r cyfarfod blynyddol ar y cyd gyda'r Grŵp Arlwyo a Maeth.

**Argymhelliad 4**: A gynhaliwyd y digwyddiad i randdeiliaid a drefnwyd ar gyfer 19 Mai 2017, ac os felly, beth oedd ei ddiben?

**Argymhelliad 5**: Rydym yn cydnabod y fenter 'WIDI' ond yn pryderu nad yw eich ymateb yn mynd i'r afael â phwynt arwyddocaol ein hargymhelliad mewn perthynas ag adolygu trefniadau cynllunio gweithlu o fewn Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

**Argymhelliad 6**: Rydym yn croesawu'r bwriad i weithio gyda byrddau iechyd i archwilio hyfforddiant gorfodol ar gyfer maeth, ond yn awyddus i weld amserlenni ar gyfer cyflawni a gorffen y gwaith hwn.

Yn olaf, mewn perthynas ag **Argymhelliad 9**, rydym yn pryderu nad oes llawer, os o gwbl, o gynnydd wedi'i wneud ac yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i'r mater hwn.

Edrychaf ymlaen at gael eglurhad ar y pwyntiau hyn.

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**